| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | • Ymarfer Gwylio a Deall a Thrawsieithu wedi'i seilio ar gyfweliad ag Alan Maggs |
| Disgrifiad: | • Gwylio fideo Saesneg o Alan Maggs ac ateb cwestiynau gwylio a deall yn Gymraeg |
| Blynyddoedd ysgol: | • CA3 - Canol - Uwch |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Llythrennedd - Llafaredd<br>Gwrando<br>• ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd..<br>Siarad (*gweithgaredd estyn*)<br>• amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Fideo Alan Maggs https://www.youtube.com/watch?v=-IsDcMB5tjM<br>• Adnodd y dysgwyr - Cyfweliad ag Alan Maggs (ar y dudalen nesaf) |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Esbonio bod Alan Maggs yn trefnu teithiau o gwmpas Cymru i ymwelwyr tramor. Yn y darn Saesneg hwn, mae'n trafod sut mae Dylan Thomas yn atyniad i ymwelwyr tramor ac mae'n siarad yn gyffredinol am yr hyn sy'n denu ymwelwyr i Gymru.<br>• Dosbarthwch yr adnodd a darllen drwy'r cwestiynau gwylio a deall i sicrhau bod pawb yn eu deall.<br>• Gwyliwch y fideo gymaint o weithiau ag sydd angen i'r dysgwyr allu ateb y cwestiynau.<br>• Trafodwch yr atebion. |
| Gweithgareddau estyn: | Trafod y diwydiant twristiaeth yn eu hardal nhw.<br>• Beth mae'r dysgwyr yn ei wybod am y diwydiant twristiaeth yn eu hardal nhw? Beth yw'r prif atyniadau?<br>• Ydy'r dysgwyr yn credu y gellid datblygu nodweddion eraill yn yr ardal i ddenu rhagor o dwristiaid?<br>• Ydy'r dysgwyr yn cytuno â sylwadau Alan Maggs tua diwedd y cyfweliad y gellid gwneud gwell defnydd o'n hiaith/ein diwylliant i ddenu ymwelwyr?<br>• Beth yw manteision y diwydiant twristiaeth? A oes anfanteision? |

**ADNODD Y DYSGWYR - Cyfweliad ag Alan Maggs**

Mae Alan Maggs yn trefnu teithiau o gwmpas Cymru i ymwelwyr tramor. Yn y darn Saesneg hwn, mae'n trafod sut mae Dylan Thomas yn atyniad i ymwelwyr tramor ac mae'n siarad yn gyffredinol am y pethau sy'n denu ymwelwyr i Gymru.

**Gwylio a deall**
Gwyliwch y fideo ac ateb y cwestiynau canlynol **yn Gymraeg**.

1. Beth sylweddololodd Alan Maggs pan ddaeth ag ymwelwyr draw i Gymru?

2. Beth a'i synnodd yn arbennig?

3. Beth mae Alan Maggs yn ei gynnig i ymwelwyr sy'n dod i Gymru oherwydd eu diddordeb yn Dylan Thomas?

4. Beth, ym marn Alan Maggs, sy'n arbennig o 'Gymreig' am Dylan Thomas?

5. Beth, ym marn Alan Maggs, y gallen ni wneud mwy o ddefnydd ohono i ddenu ymwelwyr i Gymru?